

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
12 Chwefror 2026

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. DISGRIFIAD

- 1.1. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn darparu’r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Deddf 2016 yn rhoi ystod o bwerau gwneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.
- 1.2. Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (“Deddf 2025”) y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Mae’n cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt wneud y canlynol:
 - atal darparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu rhag gwneud elw (mae Deddf 2025 yn diffinio’r gwasanaethau hyn ac yn cyfeirio atynt fel “gwasanaethau plant o dan gyfyngiad”);
 - galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd, a hynny i ddechrau ar gyfer oedolion sy’n gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG (“GIP”); a
 - gwneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf 2016, i sicrhau y gallir rhoi’r ddeddfwriaeth hon ar waith yn llawn ac yn effeithiol.
- 1.3. Mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â **Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026**. Gyda’i gilydd, mae’r offerynnau statudol hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017; Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019; a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, i gefnogi gweithredu Deddf 2025.
- 1.4. Mae’r ddau offeryn statudol yn nodi mai 1 Ebrill 2026 yw’r dyddiad dod i rym.

2. MATERION O DDIDDOREB ARBENNIG I’R PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A’R CYFANSODDIAD

- 2.1 Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026 yn dirymu ac yn ailwneud Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026. Mae hyn yn sgil yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder

a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026, SL(6)715¹.

3. Y CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

3.1. Mae'r pwerau sy'n galluogi i **Reoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026** ("y Rheoliadau Diwygio Datganiadau Blynyddol") gael eu gwneud, wedi eu cynnwys yn:

- adran 10(1)(b) o Ddeddf 2016 – Datganiad blynyddol;
- adran 10(2A) a (4A) o Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 7 o Ddeddf 2025) – Datganiad blynyddol;
- adran 187(1)(a) o Ddeddf 2016 – Rheoliadau o dan y Ddeddf; ac
- adran 28(1)(a) o Ddeddf 2025 – Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

3.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

3.3 Mae'r pwerau sy'n galluogi i **Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026** ("y Rheoliadau Diwygio Cofrestru Rhif 2") gael eu gwneud, wedi eu cynnwys yn:

- adran 6(1A), a pharagraff 4(4) o Atodlen 1A i Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2025) – Cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth;
- adran 11(4) o Ddeddf 2016 – Cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth;
- adran 14(1A) o Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 8 o Ddeddf 2025) – Cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth; ac
- adran 187(1) o Ddeddf 2016 – Rheoliadau o dan y Ddeddf.

3.4 Mae'r offeryn statudol hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

4. DIBEN AC EFFAITH Y DDEDDFWRIAETH

4.1 Nod Deddf 2016 yw gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru, gan ddarparu mwy o dryloywder a chymaroldeb ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae Deddf 2025 yn cyflwyno diwygiadau, gan gynnwys diwygiadau i Ddeddf 2016, sydd wedi eu cynllunio i gryfhau'r system iechyd a gofal cymdeithasol, gwella tryloywder a grymuso unigolion drwy roi iddynt ragor o ddewis a rheolaeth.

¹ <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=47023>

- 4.2 Mae diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 yn cael eu gwneud gan y **Rheoliadau Diwygio Datganiadau Blynyddol**, er mwyn:
- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth (heblaw awdurdodau lleol) sy'n darparu 'gwasanaeth plant o dan gyfyngiad' – sef gwasanaeth cartref gofal (i blant), gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth maethu – gynnwys yn eu datganiad blynyddol ddatganiad sy'n cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r gofyniad nid-er-elw yn adran 6A(1) o Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 8 o Ddeddf 2025); ac
 - ei gwneud yn ofynnol, yn unol â Deddf 2016, i ddarparwyr gwasanaeth yr holl wasanaethau rheoleiddiedig gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau o fewn 91 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.
- 4.3 Mae diwygiad canlyniadol i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 hefyd yn cael ei wneud gan y **Rheoliadau Diwygio Datganiadau Blynyddol**, er mwyn adlewyrchu newid a wnaed gan Ddeddf 2025 i bennawd adran 48 o Ddeddf 2016, sydd bellach yn cyfeirio at gyflwyno a chyhoeddi datganiadau blynyddol.
- 4.4 Mae diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn cael eu gwneud gan **Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026**, er mwyn:
- mewnosod diffiniadau, yn rheoliad 2, ar gyfer “ymgeisydd”, “endid nid-er-elw”, “gwasanaeth plant o dan gyfyngiad” a mathau penodol o sefydliadau elusennol a sefydliadau buddiant cymunedol, i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan adran 6A o Ddeddf 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf 2025);
 - mewnosod rheoliad newydd 3B, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n ceisio cofrestru i ddarparu 'gwasanaeth plant o dan gyfyngiad', ddarparu gwybodaeth ychwanegol a bennir ym mharagraff newydd 7A o Atodlen 1. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i hepgor gofynion penodol ar gyfer ceisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru hepgor gofynion penodol ar gyfer ceisiadau pan fo endid nid-er-elw sy'n cymryd drosodd wasanaeth plant o dan gyfyngiad yn yr un man o dan gytundeb â'r darparwr presennol, a bod Gweinidogion Cymru yn ystyried, gan roi sylw i wybodaeth a gedwir am y darparwr presennol, fod hepgoriad yn briodol. Y rhesymeg dros y broses symlach hon yw'r ffaith, mewn achosion o'r fath, bod llawer o'r wybodaeth a gedwir am y gwasanaeth presennol yn parhau i fod yn ddilys ac yn gywir ar gyfer y darparwr nid-er-elw newydd;

- mewnosod rheoliad newydd 11A, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n ceisio amrywio eu cofrestriad ddod yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1) o Ddeddf 2016 i ddarparu gwybodaeth a bennir ym mharagraff newydd 7A o Atodlen 1;
- gwneud darpariaeth ynghylch ffurf ceisiadau i amrywio cofrestriad;
- gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys a ffurf ceisiadau i ganslo cofrestriad;
- diwygio Atodlen 1, i ddiweddarau'r wybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr corfforaethol a nodi'r dogfennau cyfansoddiadol a thystiolaethol y mae rhaid iddynt gael eu darparu gan endidau nid-er-elw sy'n gwneud cais i ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

4.5 Effaith y diwygiadau hyn yw sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu i amrywio cofrestriad mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw. Effaith arall yw nodi'r gofynion ar gyfer cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth.

5. YMGYNGHORI

Ymgynghoriad ffurfiol

5.1 Rhwng 16 Gorffennaf a 8 Hydref 2025, cynhaliwyd dau ymgynghoriad 12 wythnos ar yr un pryd ynghylch y meysydd polisi o dan sylw. Roedd y rhain yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

a) Dileu elw o ofal plant cymdeithasol – newidiadau arfaethedig y mae eu hangen i:

- **reoliadau presennol ynghylch cofrestru darparwyr gwasanaeth²**, er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i ymgeisydd sy'n gwneud cais i gofrestru neu gais am amrywiad, mewn perthynas â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, ddarparu gwybodaeth berthnasol i alluogi AGC (fel y rheoleiddiwr) i benderfynu a yw darparwr yn bodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025;
- **rheoliadau presennol sy'n llywodraethu'r datganiadau blynyddol³** a gyflwynir gan ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu datganiad yn cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025; a

² Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

³ Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

- **monitro a gorfodi darpariaethau Deddf 2025 o ran trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur** a wnaed gan y darparwyr hyn, a hynny i geisio sicrhau nad yw ein bwriad polisi – sef atal darparwyr rhag gwneud elw o ofal plant – yn cael ei danseilio.

b) Newidiadau arfaethedig i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau **o fewn 91 o ddiwrnodau** i ddiwedd y flwyddyn ariannol (erbyn 30 Mehefin);
- diwygio rheoliadau presennol ynghylch hysbysiadau cosb⁴, er mwyn ymdrin â'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser gofynnol **drwy hysbysiad cosb**, ac i bennu swm y gosb; a
- **nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys** yng nghais darparwr i ganslo ei gofrestrriad, a ffurf y cais.

5.2 Tynnwyd sylw cynulleidfia eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriadau hyn, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, rheoleiddwyr perthnasol, arolygiaethau a Chomisiynwyr, Lleisiau o Gofal Cymru a chynrychiolwyr eraill o'r trydydd sector, yn ogystal â phartneriaid cymdeithasol. Yn ogystal â hynny, mae gan AGC dudalennau gwe sy'n benodol ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth i ddarparwyr gwasanaethau ynghylch y newidiadau rheoleiddiol a statudol sy'n effeithio arnynt – o ran dileu elw o ofal cymdeithasol plant a'r newidiadau cyffredinol i'r gofynion ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol a cheisiadau i ganslo cofrestrriadau.

5.3 Y tro hwn, ni chyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall na fersiwn i blant a phobl ifanc o'r ymgynghoriadau ar wahân gan fod y newidiadau rheoleiddiol yn eithaf bach a thechnegol eu natur. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r polisi ehangach ynghylch dileu elw o ofal cymdeithasol plant, rydym wedi gweithio'n agos gyda grwpiau cynrychioliadol, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Lleisiau o Gofal Cymru a Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, ac yn parhau i ymwneud â nhw i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall yr hyn y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu iddynt.

5.4 Yn gryno, roedd canlyniadau'r ddau ymgynghoriad fel a ganlyn:

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

- **Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad.** Yn fras, cafwyd ymatebion gan gymysgedd o ddarparwyr er elw a nid-er-elw unigol, awdurdodau lleol unigol a sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, darparwyr

⁴ Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

gwasanaethau a phlant a phobl ifanc. Daeth ymateb ar y cyd i law ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Maethu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- **O ran y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau presennol ynghylch cofrestru**, cafwyd ychydig o awgrymiadau penodol ar gyfer newidiadau pellach i'r rheoliadau hynny, a chafwyd dim ond ychydig o adborth penodol ar y meysydd a gynigiwyd i'w newid. Yn hytrach na chytuno neu anghytuno â'r newidiadau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, canolbwyntiodd llawer o'r ymatebwyr ar y rhesymeg bolisi ehangach yn ymwneud â 'Dileu Elw', naill ai drwy ailadrodd eu cefnogaeth eang neu eu gwrthwynebiad iddo, neu fyfyrir ar feysydd sydd eisoes wedi eu diffinio ar wyneb Deddf 2025 (megis yr ystod o fodelau nid-er-elw sydd wedi eu cynnwys). Gwnaeth rhai ymatebwyr gydnabod y rhesymeg sy'n sail i'r newidiadau arfaethedig, o ran gwella cydymffurfedd â'r gofynion nid-er-elw, er mynegodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn bryderus am y risg bosibl i gapasiti AGC, pe bai prosesau cofrestru yn rhy gymhleth. Rhannodd sawl ymatebydd awgrymiadau ar gyfer meysydd i'w cynnwys mewn canllawiau cysylltiedig ynghylch cofrestru.
- **O ran y newidiadau arfaethedig i reoliadau presennol ynghylch datganiadau blynyddol**, roedd sawl ymatebydd o blaid yr egwyddor o ddefnyddio datganiadau blynyddol i ddangos tystiolaeth barhaus o statws nid-er-elw. Awgrymodd rhai ymatebwyr feysydd pellach i'w cynnwys yn y datganiadau blynyddol, er enghraifft, gwybodaeth ariannol fanwl, gan gynnwys gwybodaeth ariannol fanwl ynghylch sefydliad ehangach y darparwr, nid dim ond rhan gofrestredig nid-er-elw y sefydliad. Rhybuddiodd eraill y gallai'r newidiadau sydd eisoes wedi eu cynnig olygu y bydd sefydliadau llai yn wynebu trafferthion yn sgil llwyth gwaith ychwanegol yn ogystal ag arwain at gostau ychwanegol.
- **O ran y dull arfaethedig ar gyfer monitro a gorfodi darpariaethau Deddf 2025 ynghylch trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur a wnaed gan ddarparwyr**, roedd sawl ymatebydd yn cydnabod yr egwyddor o gael dull ar waith ar gyfer monitro a gorfodi. Fodd bynnag, awgrymwyd yr angen am ganllawiau ychwanegol, a gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o fanylion a chanllawiau clir i roi sicrwydd i ddarparwyr. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau ynghylch y cynnig i AGC roi cytundebau ar waith gyda rheoleiddwyr eraill ar gyfer y modelau nid-er-elw yn cydnabod y rhesymeg dros hyn, gydag un yn dweud y byddai hyn yn lleihau biwrocratiaeth. Yn fwy cyffredinol, mynegodd sawl ymatebydd bryder am allu ac arbenigedd AGC i ymchwilio i drefniadau ariannol a allai fod yn afresymol neu'n anghymesur. Nododd rhai y costau posibl a allai ddod i'r amlwg yn sgil goruchwyliaeth fanwl o'r fath.

b) Newidiadau arfaethedig i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

- **Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion i'r ymgynghoriad.** Yn fras, cafwyd ymatebion gan gymysgedd o ddarparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol unigol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Undeb y GMB a Gofal Cymdeithasol Cymru.
- **Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid yr amserlen arfaethedig o 91 o ddiwrnodau** (ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad blynyddol yn ymwneud â hi) i ddarparwyr gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain, gan nodi bod y terfyn amser yn un rhesymol a chymesur i ddarparwyr gwasanaeth lunio datganiadau blynyddol, eu cyflwyno a'u cyhoeddi. Nododd sawl ymatebydd y byddai sicrhau bod y dyddiad cyhoeddi yn cyd-fynd â chyfnod penodedig ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn helpu i safoni ymarfer ar draws y sector. Rhybuddiodd rhai ymatebwyr y gallai'r terfyn o 91 o ddiwrnodau arwain at heriau yn ystod cyfnodau o alw gweithredol uchel; pe bai anawsterau technolegol annisgwyl; pan fo nifer o wasanaethau rheoleiddiedig yn cael eu darparu neu pan fo terfynau amser statudol eraill ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn cyd-daro.
- **Rhannodd rhai ymatebwyr ar ran awdurdodau lleol bryderon ynghylch cydymffurfedd y datganiadau blynyddol PDF a gynhyrchir ar hyn o bryd gan system ar-lein AGC â safonau hygyrchedd.** O ganlyniad, bydd AGC yn addasu ei system ar-lein i alluogi cydymffurfedd â safonau hygyrchedd a bydd yn diwygio ei ganllawiau gweithredol yn unol â hynny, yn barod ar gyfer datganiadau blynyddol 2025-26.
- **Roedd cefnogaeth eang ymhlith ymatebwyr i'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru, drwy AGC, gael yr opsiwn i ddyroddi hysbysiad cosb** i ddarparwyr gwasanaeth sy'n methu â chyhoeddi eu datganiad blynyddol o fewn yr amserlen ragnodedig. Roedd llawer o'r farn bod yr opsiwn hwn yn ddull gorfodi cymesur ac ymarferol sy'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, cysondeb a chydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol. Rhannodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch yr heriau ymarferol o ran gweithredu ac anogwyd dull gweithredu teg a chymesur ar gyfer gorfodi, yn arbennig ar gyfer darparwyr sefydliadau llai.
- Cafwyd ystod o farn gan ymatebwyr ynghylch swm arfaethedig y gosb. Cytunodd llawer o ymatebwyr fod y gosb lefel 4 (£2,500) yn briodol ac yn gymesur, a chydabuwyd bod y swm yn cyd-fynd â'r gosb bresennol am fethu â chyflwyno datganiad blynyddol a throeddau tebyg. Fodd bynnag, rhannodd sawl ymatebydd bryderon ynghylch cymesuredd y gosb mewn cyd-destunau penodol ac ar gyfer sefydliadau llai neu ddarparwyr gwasanaeth unigol.

- **Cytunodd ymatebwyr yn fras bod y gofynion arfaethedig o ran gwybodaeth wrth wneud cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn berthnasol ac yn gymesur.** Roedd cytundeb cryf bod y gofynion hyn yn hanfodol i sicrhau bod prosesau cau gwasanaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel, yn dryloyw, ac yn rhoi sylw dyladwy i lesiant unigolion sy'n derbyn gofal.

5.5 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

- a) <https://www.llyw.cymru/ymgyngoriad-ar-ddileu-elw-o-ofal-plant-html>
- b) <https://www.llyw.cymru/cynnig-newidiadau-i-drefniadau-rheoleiddio-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol>

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Gan fod Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 (“y Rheoliadau Diwygio Datganiadau Blynyddol”) a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026 (“y Rheoliadau Diwygio Cofrestru Rhif 2”) yn ymwneud â dau faes polisi, sef dileu elw o ofal cymdeithasol plant a newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a ganlyn wedi ei rannu fesul offeryn statudol, ac yna yn opsiynau, costau a manteision sy'n berthnasol i bob maes polisi.

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL AR GYFER: Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

6. OPSIYNAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

- 6.1. Mae dau opsiwn, a restrir isod, wedi eu hystyried ynghylch y broses datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â dileu elw o ofal cymdeithasol plant.
- 6.2. **Opsiwn un – Gwneud dim.** Peidio â diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddarparu datganiad sy'n cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025. O dan yr opsiwn hwn, ni fydd datganiad wedi ei gynnwys mewn datganiadau blynyddol i alluogi darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad i gadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw.
- 6.3. **Opsiwn dau – Deddfu.** Diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 presennol i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddarparu datganiad sy'n cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025. O dan yr opsiwn hwn, bydd elfen ychwanegol yn cael ei chynnwys yn y datganiad blynyddol i alluogi darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad i gadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw.

b) Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

- (i) **Pennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr ar neu cyn 91 o ddiwrnodau ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi – hynny yw, 30 Mehefin**

- 6.4. Mae [adran 10 o Ddeddf 2016](#) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i AGC) ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y maent wedi eu cofrestru ynddi. Mae hefyd yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob datganiad blynyddol a gyflwynir iddynt.
- 6.5. Mae [adran 14 o Ddeddf 2025](#) yn newid hyn, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain. Mae Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yn rhagnodi terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol.
- 6.6. Ar gyfer yr agwedd hon ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r ddau opsiwn sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:
- 6.7. **Opsiwn un – Gwneud dim.** Peidio â diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i bennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr. O dan yr opsiwn hwn, ni fydd terfyn amser yn cael ei osod ar ddarparwyr gwasanaeth i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain.
- 6.8. **Opsiwn dau – Deddfu.** Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Cymru) 2017 i bennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr. O dan yr opsiwn hwn, bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau ar neu cyn 91 o ddiwrnodau ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Hynny yw, erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.
- (ii) **Sicrhau y gellir ymdrin â'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser penodedig drwy hysbysiad cosb**
- 6.9. Mae adran 52 o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi troseddau y gellir ymdrin â nhw drwy ddyroddi hysbysiad cosb i berson y maent wedi eu bodloni bod y person wedi cyflawni'r drosedd honno. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 yn rhagnodi bod darparwr gwasanaeth sy'n methu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser penodedig yn drosedd y gellir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb. Mae'r Rheoliadau yn darparu mai'r gosb am y drosedd honno yw swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod (£2,500 ar hyn o bryd).
- 6.10. **Opsiwn un – Gwneud dim.** Peidio â diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i sicrhau bod y drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig yn drosedd y gellir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb. Byddai hyn yn golygu na ellir ymdrin â'r drosedd mewn ffordd sy'n gymesur ac sy'n defnyddio llai o adnoddau drwy hysbysiad cosb.

- 6.11 **Opsiwn dau – Deddfu.** Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i sicrhau bod methu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig yn drosedd y gellir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb. O dan yr opsiwn hwn, bydd modd ymdrin â'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser penodedig drwy hysbysiad cosb a bydd swm y gosb yn cyfateb i lefel 4 ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod (£2,500 ar hyn o bryd).

7. COSTAU, MANTEISION A RISGIAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

Mae'r costau, y manteision a'r risgiau wedi eu rhannu yn yr effeithiau posibl ar bedwar grŵp allweddol yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol gan y broses datganiadau blynyddol, sef ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, AGC, Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r cyhoedd.

Opsiwn un – Gwneud dim. Costau ac arbedion

- 7.1 Nid oes unrhyw gostau nac arbedion ychwanegol wedi eu nodi o dan yr opsiwn hwn, naill ai i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, AGC neu Lywodraeth Cymru.

Opsiwn un – Gwneud dim. Manteision ac anfanteision

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 7.2 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai angen i ddarparwyr gwblhau cwestiwn ychwanegol yn eu datganiad blynyddol i gadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Mewn egwyddor, byddai hyn yn osgoi baich gweinyddol ychwanegol ar ddarparwyr, fodd bynnag, mae'r fantais hon mor fach fel ei bod yn ddibwys o ran amser gweinyddol a arbedir.

AGC

- 7.3 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai angen i AGC adolygu cwestiwn ychwanegol yn natganiad blynyddol darparwr i wirio a yw'r darparwr wedi cadarnhau ei fod yn parhau i fodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Yn yr un modd â ddarparwyr, byddai hyn, mewn egwyddor, yn osgoi baich gweinyddol ychwanegol, fodd bynnag, mae'r fantais hon mor fach fel ei bod yn ddibwys o ran amser gweinyddol a arbedir.

Llywodraeth Cymru

- 7.4 Nid oes unrhyw fanteision penodol wedi eu nodi i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn.

Aelodau o'r cyhoedd

- 7.5 Mae datganiadau blynyddol wedi eu bwriadu'n bennaf i ddarparu gwybodaeth gywir a chymharol i'r cyhoedd. Heb gynnwys cadarnhad o

ran statws nid-er-elw darparwr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, ni fydd gan y cyhoedd ddull sydd ar gael iddynt i'w sicrhau bod gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn parhau i fod yn nid-er-elw, gan efallai danseilio ymddiriedaeth yn y system reoleiddio.

Opsiwn un – Gwneud dim. Risgiau

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 7.6 Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi eu nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad o dan yr opsiwn hwn.

AGC

- 7.7 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai AGC yn cael sicrwydd gan ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad eu bod yn parhau i fodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Felly, ni fyddai gan AGC unrhyw weithdrefn ffurfiol i gadarnhau bod darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn parhau i fodloni'r diffiniad statudol o endid nid-er-elw ar ôl cofrestru am y tro cyntaf. Mae hyn yn achosi risg o greu bwlch cydymffurfedd gan y byddai gan AGC lai o ffyrdd o wirio a yw darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn cydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf 2025 er mwyn bodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Gallai hyn gynyddu'r risg bod darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio yn gweithredu am gyfnodau estynedig.
- 7.8 Mae adran 47 o Ddeddf 2016 yn gwneud darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn datganiad blynyddol yn drosedd. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai AGC yn gallu defnyddio'r opsiwn gorfodi hwn oherwydd na fyddai'r datganiad o ran statws nid-er-elw yn rhan o'r datganiad blynyddol. O ganlyniad, byddai AGC yn colli sail gyfreithiol glir ar gyfer dyroddi hysbysiadau cosb neu fynd ar drywydd camau gorfodi troseddol mewn achosion o gamliwio.

Llywodraeth Cymru

- 7.9 Mae amcan polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant yn dibynnu ar weithgarwch monitro cadarn. Mae peidio â diwygio'r Rheoliadau fel y cynigir o dan yr opsiwn hwn yn peryglu gallu AGC i gefnogi'r nod strategol hwn yn effeithiol.

Aelodau o'r cyhoedd

- 7.10 Gallai absenoldeb gweithdrefn ffurfiol, sydd ar gael i'r cyhoedd i gadarnhau statws nid-er-elw, arwain at amheuaeth gyhoeddus ynghylch uniondeb darparwyr, yn arbennig mewn amgylchedd polisi sy'n canolbwyntio ar ddileu elw.

Opsiwn dau - Deddfu. Costau ac arbedion

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 7.11 O dan yr opsiwn hwn, bydd angen i ddarparwyr gadarnhau'n flynyddol eu bod yn bodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw. Gallai hyn olygu amser ychwanegol i staff gwblhau'r datganiad hwn yn ogystal â hyfforddiant posibl i staff ar y gofynion adrodd newydd yn y datganiad blynyddol. Mae'r gost bosibl sy'n gysylltiedig â hyn yn debygol o fod yn isel o ystyried y bydd hyn, i ddarparwyr sy'n cydymffurfio, yn ddim ond yn achos o gadarnhau eu statws nid-er-elw.

AGC

- 7.12 O dan yr opsiwn hwn, bydd cost ychwanegol i AGC o ran amser staffio ychwanegol i adolygu ac archwilio cydymffurfedd â'r diffiniad nid-er-elw yn y datganiadau blynyddol ac ymchwilio i unrhyw bryderon posibl pe na bai darparwr yn cydymffurfio. Bydd staff AGC hefyd angen hyfforddiant ar brosesau newydd sy'n ymwneud â hyn.
- 7.13 Yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig ag adolygu cydymffurfedd â'r diffiniad nid-er-elw yn y datganiadau blynyddol, bydd angen i AGC hefyd addasu ei blatfform AGC Ar-lein er mwyn cynnwys datganiadau newydd ac integreiddio gwiriadau cydymffurfedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu TG pwrpasol a gwaith cynnal a chadw parhaus.
- 7.14 Yn ogystal â chostau adolygu a chostau TG, bydd AGC hefyd yn mynd i gostau ychwanegol o ran amser staff ar gyfer llunio canllawiau clir i ddarparwyr ynghylch y newidiadau i'r datganiadau blynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfedd.
- 7.15 O ran y costau sy'n gysylltiedig â'r uchod, dyrannwyd cyllid gwerth £251,000 i AGC yn ystod 2025-26 (costau suddedig yr aed iddynt eisoes). Bydd y cyllid hwn yn codi i £627,000 yn ystod 2026-27 a 2027-28 ar gyfer ymdrin â chostau gweithredu yn ehangach. Mae hyn yn ymgorffori'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwyntiau 7.12, 7.13 a 7.14 uchod yn ogystal â'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i drefniadau cofrestru a nodir ar wahân.

Llywodraeth Cymru

- 7.16 Mae costau i Lywodraeth Cymru o ran ymgysylltu yn ehangach â rhanddeiliaid ynghylch y gwaith o ddileu elw. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2025 yn rhag-weld swm penodol o £13,273 y flwyddyn ar gyfer costau cyfathrebu Llywodraeth Cymru rhwng 2024-25 a 2027-28 (mae'r costau ar gyfer 2024-25 a 2025-26 yn gostau suddedig). Gallai cyfran o'r gweithgarwch cyfathrebu hwn, hyd at, a chan gynnwys 2026-27, gynnwys cyfathrebu'r newidiadau i'r broses datganiadau blynyddol, fodd bynnag, rhagwelir y bydd hyn yn rhan fach iawn o'r gweithgarwch cyfathrebu, o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn debygol o ganolbwyntio ar y cerrig milltir gweithredu ehangach, er enghraifft, y cyfyngiadau o 1 Ebrill 2027 ymlaen o ran ychwanegu

gwelyau ychwanegol at gartrefi plant presennol neu gymeradwyo gofalwyr maeth newydd.

Aelodau o'r cyhoedd

- 7.17 Nid oes unrhyw gostau penodol i aelodau o'r cyhoedd wedi eu nodi o dan yr opsiwn hwn.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 7.18 Bydd cyflwyno'r datganiad blynyddol o ran statws nid-er-elw o dan yr opsiwn hwn yn darparu gweithdrefn syml i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddangos eu bod yn cadw at y gofyniad nid-er-elw, gan leihau amwysedd a'r posibilrwydd o ymholiadau adweithiol pellach gan AGC.

AGC

- 7.19 Bydd cyflwyno'r datganiad blynyddol o ran statws nid-er-elw o dan yr opsiwn hwn yn darparu gweithdrefn ffurfiol i AGC wirio cydymffurfedd parhaus ag adran 6A, gan sicrhau mantais i brosesau goruchwyllo rheoleiddiol. Yn ogystal, mae datganiadau anwir o dan adran 47 yn rhai y gellir eu gorfodi, gan alluogi AGC i weithredu'n gyflym yn erbyn achosion o dorri cydymffurfedd.

Llywodraeth Cymru

- 7.20 Bydd yr opsiwn hwn o fudd i uchelgais strategol Llywodraeth Cymru o ran dileu elw o ofal cymdeithasol plant drwy ymgorffori gwiriadau cydymffurfio nid-er-elw ym mhrosesau arferol.

Aelodau o'r cyhoedd

- 7.21 Bydd aelodau o'r cyhoedd yn elwa ar fwy o dryloywder yn sgil y datganiadau blynyddol a gyhoeddir a fydd yn cadarnhau statws nid-er-elw darparwyr, gan atgyfnerthu hyder y cyhoedd.

Opsiwn dau – Deddfu. Risgiau

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 7.22 Mae'r datganiad blynyddol o ran statws nid-er-elw yn dasg cydymffurfedd ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ei chwblhau. Gallai'r baich ychwanegol hwn arwain at risg o osod straen ar ddarparwyr llai yn sgil eu hadnoddau prin ond ystyrir bod

y risg hon yn isel iawn o ystyried y dylai hyn fod yn ymarfer syml na ddylai fod yn feichus i'w gwblhau.

AGC

- 7.23 Gall yr amser a'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar staff i weithredu'r newid hwn, gan gynnwys addasu AGC Ar-lein, osod straen ar adnoddau presennol AGC. Fodd bynnag, dylai'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i AGC liniaru'r risg hon.

Llywodraeth Cymru

- 7.24 Mae risg fach o bwysau cyllidebol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru pe bai costau AGC i weithredu'r newid hwn yn uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, disgwylir i'r risg hon fod yn isel o ystyried bod gwariant AGC ynghylch y mater hwn (costau suddedig) hyd yma wedi bod yn unol â'i dyraniad cyllidebol.

Aelodau o'r cyhoedd

- 7.25 Nid oes risgiau penodol i aelodau o'r cyhoedd wedi eu nodi o dan yr opsiwn hwn.

b) Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

- (i) **Pennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr ar neu cyn 91 o ddiwrnodau ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi – hynny yw, 30 Mehefin**

Opsiwn un – Gwneud dim. Costau ac arbedion

- 7.26 Nid yw'r opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) na darparwyr gwasanaeth.

Opsiwn un – Gwneud dim. Manteision ac anfanteision

- 7.27 Gallai peidio â chael terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol roi mwy o hyblygrwydd i rai darparwyr, yn arbennig y rhai sydd â phrinder staff.
- 7.28 Bydd gosod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth i gyhoeddi datganiadau heb bennu amserlen yn arwain at gyhoeddi datganiadau blynyddol ar wahanol adegau gan leihau tryloywder a chysondeb. Bydd hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth sy'n deillio o ddatganiadau blynyddol ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol. Ni fydd yn darparu eglurder na sicrwydd i ddarparwyr gwasanaeth.

Opsiwn un – Gwneud dim. Risgiau

- 7.29 Mae gosod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth i gyhoeddi datganiadau heb bennu amserlen yn creu risg y bydd datganiadau

blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wahanol adegau. Bydd yn golygu nad yw'r wybodaeth sy'n deillio o ddatganiadau blynyddol ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol a chyson.

Opsiwn dau – Deddfu. Costau ac arbedion

- 7.30 Nid yw'r opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol i Weinidogion Cymru na darparwyr gwasanaeth. Mae eisoes yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth lunio datganiad blynyddol a'i gyflwyno i AGC. Ymdriniwyd â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gofynion yn Neddf 2025 i ddarparwyr gyhoeddi'r datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain ym Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

- 7.31 Bydd pennu terfyn amser i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi eu datganiadau blynyddol yn:

- hyrwyddo atebolrwydd a chydymffurfedd,
- hybu tryloywder a hyder y cyhoedd,
- galluogi goruchwyllo a chynllunio gwaith arolygu mewn modd amserol.

Opsiwn dau – Deddfu. Risgiau

- 7.32 Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

- (ii) **Sicrhau y gellir ymdrin â'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser penodedig drwy hysbysiad cosb**

Opsiwn un – Gwneud dim. Costau ac arbedion

- 7.33 Nid yw'r opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) na darparwyr gwasanaeth.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

- 7.34 Bydd darparwyr gwasanaeth nad ydynt yn cydymffurfio yn osgoi cosbau ariannol.
- 7.35 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd darparwyr gwasanaeth nad ydynt yn cydymffurfio yn destun hysbysiad cosb. Gall hyn arwain at gyfraddau cydymffurfio is, heriau o ran gorfodi a materion yn ymwneud â thegwch.

Opsiwn un – Gwneud dim. Risgiau

- 7.36 Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn dau – Deddfu. Costau ac arbedion

- 7.37 Ni fydd costau i ddarparwyr sy'n cydymffurfio. Mewn achos o beidio â chydymffurfio, bydd y darparwr yn wynebu cosb o £2,500. Mae gan ddarparwyr nad ydynt yn cydymffurfio yr opsiwn i beidio â derbyn hysbysiadau cosb. Y dewis arall yw erlyniad troseddol llawn, a all fod yn anghymesur ac yn broses sy'n defnyddio llawer o adnoddau.
- 7.38 I Weinidogion Cymru (AGC), efallai y bydd cost drosiannol i sicrhau bod arolygwyr yn ymgyswrtu â'r rheoliadau newydd. Fodd bynnag, bydd hyn yn ymwneud â gweithredu'r system hysbysiadau cosb yn hytrach na'r Rheoliadau Diwygio. Ymdriniwyd â'r costau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu system hysbysiadau cosb ym Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf 2016.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

- 7.39 Mae'r dull gweithredu arfaethedig yn darparu cysondeb â'r drosedd bresennol o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i AGC o fewn y terfyn amser penodedig.
- 7.40 Mae gosod hysbysiad cosb ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol nad ydynt yn cydymffurfio yn cynnig sawl mantais bwysig:
- Hyrwyddo atebolrwydd a chydymffurfedd drwy atgyfnerthu difrifoldeb y rhwymedigaeth i fodloni'r terfyn amser.
 - Darparu hyblygrwydd rheoleiddiol drwy alluogi AGC i ddefnyddio adnoddau gorfodi eraill heblaw am ddibynnu ar erlyniad troseddol.

Opsiwn dau – Deddfu. Risgiau

- 7.41 Gall Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 gael effaith ariannol andwyol ar ddarparwr gwasanaeth nad yw'n cydymffurfio. Gall y gosb benodedig o £2,500 effeithio'n anghymesur ar ddarparwyr bach.

8. CASGLIADAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

- 8.1 Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, **opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir. Deddfu:** Diwygio'r rheoliadau datganiadau blynyddol presennol i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddarparu datganiad eu bod yn parhau i fodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025.

b) Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol

- (i) **Pennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr ar neu cyn 91 o ddiwrnodau ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi – hynny yw, 30 Mehefin**

8.2 Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, **opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir. Deddfu:** Diwygio rheoliadau datganiadau blynyddol presennol i bennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr.

- (ii) **Sicrhau y gellir ymdrin â'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser penodedig drwy hysbysiad cosb**

8.3 Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, **opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir. Deddfu:** Diwygio rheoliadau hysbysiadau cosb presennol i wneud methiant i gyhoeddi datganiad blynyddol o fewn yr amser rhagnodedig yn drosedd y gellir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb.

9. ASESU'R GYSTADLEUAETH

9.1 **Ar y cyfan, o ran y newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol**, ni ddisgwylir i'r gofynion yn Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru, na chystadleurwydd y rhan fwyaf o fusnesau.

10. ADOLYGU AR ÔL GWEITHREDU

10.1. Disgwylir i werthusiad ffurfiol o'r gwaith ar ddileu elw gael ei gynnal wrth i'r polisi gael ei weithredu. Byddai hyn yn cynnwys gwerthuso unrhyw effeithiau sylweddol o ganlyniad i'r is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y diwygiad hwn.

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL AR GYFER: Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026

11. OPSIYNAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

11.1. Mae dau opsiwn, a restrir isod, wedi eu hystyried ynghylch y broses datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â dileu elw o ofal cymdeithasol plant.

- 11.2. **Opsiwn 1 – gwneud dim.** Peidio â gwneud y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 i sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu amrywio cofrestriad, mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.
- 11.3. **Opsiwn dau – Deddfu.** Diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 presennol i sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu amrywio cofrestriad, mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.
- b) Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: Gwybodaeth i'w darparu fel rhan o gais darparwr gwasanaeth i ganslo ei gofrestriad**
- 11.4 Mae [adran 14 o Ddeddf 2016](#) yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth wneud cais i Weinidogion Cymru i ganslo ei gofrestriad, pan fo'n bwriadu rhoi'r gorau i weithredu yn gyfan gwbl. Mae [adran 15 o Ddeddf 2025](#) yn diwygio hyn, i roi pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth, a ffurf yr wybodaeth, sydd i'w chynnwys mewn cais o'r fath.
- 11.5 Mae'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru (yn ymarferol, AGC) i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am sut y byddant yn parhau i gydymffurfio â gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu, nes eu bod yn rhoi'r gorau i weithredu.
- 11.6 Bydd hyn yn sicrhau bod gan AGC wybodaeth berthnasol am weithrediad bwriedig y gwasanaeth(au) a sicrwydd yn ymwneud â gofal, diogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio neu'n byw yn y gwasanaeth(au), er mwyn galluogi AGC i gyflawni ei dyletswyddau rheoleiddiol yn effeithiol yn ystod y cyfnod cau.
- 11.7 Mae dau opsiwn wedi eu hystyried wrth ddadansoddi costau, manteision a risgiau creu rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref gyflwyno gwybodaeth ychwanegol wrth ganslo eu cofrestriad.
- 11.8 Ar gyfer yr agwedd hon ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r ddau opsiwn sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:
- 11.9 **Opsiwn un – Gwneud dim.** Peidio â diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys gwybodaeth benodol mewn cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth a pheidio â nodi ffurf y cais.
- 11.10 **Opsiwn dau – Deddfu.**

- (i) **Defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 14(1A)(a) o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:**
- a. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth;
 - b. Y rheswm dros wneud y cais;
 - c. Ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir, datganiad am sut mae'r darparwr gwasanaeth yn bwriadu cydymffurfio â'r rheoliadau a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 2016 (safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu) nes bod y cofrestriad wedi'i ganslo;
 - d. Ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir, manylion unrhyw hysbysiad a roddwyd am y bwriad i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth; i'r awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ei ardal; i'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ei ardal; ac i unrhyw berson arall;
 - e. Os yw'r darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i ganslo ei gofrestrriad lai na 3 mis cyn y dyddiad dod i rym arfaethedig, adroddiad yn ymwneud ag a yw unrhyw un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n eu darparu neu unrhyw fan y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ynddo, ohono, neu mewn perthynas ag ef wedi peidio neu'n debygol o beidio â bod yn ariannol hyfyw o fewn y 12 mis nesaf.
- (ii) **Defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau i nodi bod rhaid i'r cais gael ei wneud drwy system ar-lein AGC.**

12. COSTAU, MANTEISION A RISGIAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

Mae'r costau, y manteision a'r risgiau wedi eu rhannu yn yr effeithiau posibl ar dri grŵp allweddol yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol gan y broses gofrestru, sef darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, AGC a Llywodraeth Cymru.

Opsiwn un – Gwneud dim. Costau ac arbedion

- 12.1 Nid oes unrhyw gostau nac arbedion ychwanegol wedi eu nodi o dan yr opsiwn hwn, naill ai i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, AGC neu Lywodraeth Cymru.

Opsiwn un – Gwneud dim. Manteision ac anfanteision

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 12.2 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai angen i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad fodloni amodau cofrestru newydd na darparu tystiolaeth ychwanegol o statws nid-er-elw, gan leihau'r baich gweinyddol. Byddai prosesau cofrestru presennol yn parhau yr un fath, gan leihau, mewn egwyddor, unrhyw darfu ar ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

AGC

- 12.3 O dan yr opsiwn hwn, byddai AGC yn osgoi'r angen i gynnal gwiriadau cofrestru newydd neu ddatblygu canllawiau ychwanegol ar gyfer y cam cofrestru. Byddai hyn yn osgoi llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer staff neu newidiadau i'r system TG i ddarparu ar gyfer y gofynion cofrestru newydd, a allai fod o fudd i sefydlogrwydd sefydliadol. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran risgiau, gall y fantais hon arwain at lai o sicrwydd bod darparwyr yn bodloni'r gofyniad nid-er-elw ar y cam cofrestru.

Llywodraeth Cymru

- 12.4 Byddai'r opsiwn hwn yn osgoi cyflwyno newidiadau ychwanegol a allai greu dryswch neu wrthwynebiad ychwanegol ymhlith darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad wrth weithredu polisi cynhwysfawr sydd eisoes wedi creu pryder sylweddol ymhlith rhai darparwyr.

Opsiwn un – Gwneud dim. Risgiau

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 12.5 Yn sgil peidio â chyflwyno gofynion cofrestru wedi eu diweddarau, efallai y bydd darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn methu â bodloni'r diffiniad nid-er-elw, a allai olygu y byddant yn destun camau gorfodi yn ddiweddarach. Os daw achosion o dorri cydymffurfedd at sylw AGC drwy gwynion neu wybodaeth yn hytrach na gwiriadau strwythuredig wrth gofrestru, mae darparwyr yn wynebu risg o fod yn destun ymchwiliadau sydyn, gan gynyddu'r risg o darfu arnynt.

AGC

- 12.6 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gan AGC weithdrefn glir i wirio cydymffurfedd ag adran 6A ar y cam cofrestru, gan achosi risg o ran gwanhau ei phrosesau goruchwyllo rheoleiddiol. Yn ogystal, heb amodau cofrestru penodol, mae'n bosibl y byddai AGC yn wynebu anawsterau o ran gweithredu'n brydlon yn erbyn darparwyr nad ydynt yn bodloni'r gofyniad nid-er-elw. Gall hyn achosi risg i enw da AGC wrth ymddangos fel ei bod yn methu â sicrhau atebolrwydd yn y sector a chydymffurfedd â'r polisi a'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

Llywodraeth Cymru

- 12.7 Mae peidio â chyflwyno gofynion cofrestru wedi eu diweddarau yn peryglu nod polisi craidd Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal os nad yw AGC yn gallu gwirio cydymffurfedd ag adran 6A ar y cam

cofrestru, gan arwain at risg bosibl y bydd darparwyr yn cael eu cofrestru er nad ydynt yn bodloni diffiniad nid-er-elw adran 6A. Gallai hyn erydu ymddiriedaeth yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio a diogelu buddiannau plant.

Opsiwn dau – Deddfu. Costau ac arbedion

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 12.8 O dan yr opsiwn hwn, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddarparu tystiolaeth ychwanegol eu bod yn bodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw wrth gofrestru ag AGC. Gall paratoi'r ddogfennaeth ychwanegol hon a'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer cofrestru arwain at rai costau ychwanegol o ran amser ychwanegol staff wrth gasglu'r ddogfennaeth yn ogystal ag amser hyfforddi staff ynghylch y broses newydd. Nid yw'n bosibl pennu'n sicr yr union amser neu'r gost y bydd darparwyr yn mynd iddi wrth baratoi'r ddogfennaeth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru o dan y gofynion newydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y rhain yn rhwymedigaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno, ac felly nid oes ar hyn o bryd unrhyw ddata sylfaenol neu hanesyddol sefydledig ynghylch yr amser y mae darparwyr yn ei gymryd fel arfer i gwblhau'r tasgau penodol hyn. At hynny, mae strwythur a graddfa darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol. Bydd hyn yn debygol o ddylanwadu ar yr amser a'r adnoddau y mae eu hangen i gydymffurfio. Rhagwelir y bydd y gost ychwanegol yn fach iawn gan fod y gofyniad yn ffurfioli i raddau helaeth yr wybodaeth y dylai darparwyr feddu arni eisoes yn rhan o drefniadau llywodraethiant da.

AGC

- 12.9 O dan yr opsiwn hwn, bydd cost ychwanegol i AGC o ran amser staffio ychwanegol y mae ei angen i brosesu'r gofynion cofrestru newydd a gwirio cydymffurfedd. Bydd staff AGC hefyd angen hyfforddiant ar brosesau newydd sy'n ymwneud â hyn.
- 12.10 Yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r gofynion cofrestru newydd ac adolygu cydymffurfedd, bydd angen i AGC hefyd addasu ei phlatform ar-lein a'i systemau mewnol er mwyn cynnwys y cwestiynau cofrestru newydd ac integreiddio gwiriadau cydymffurfedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu TG pwrpasol a gwaith cynnal a chadw parhaus.
- 12.11 Yn ogystal â chostau prosesu a chostau TG, bydd AGC hefyd yn mynd i gostau ychwanegol o ran amser staff ar gyfer llunio canllawiau clir i ddarparwyr ynghylch y newidiadau i gostau cofrestru.
- 12.12 O ran y costau sy'n gysylltiedig â'r uchod, dyrannwyd cyllid gwerth £251,000 i AGC yn ystod 2025-26 (costau suddedig yr aed iddynt eisoes). Bydd y cyllid hwn yn codi i £627,000 yn ystod 2026-27 a 2027-28 ar gyfer ymdrin â chostau gweithredu yn ehangach. Mae hyn yn ymgorffori'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwyntiau 12.9, 12.10 ac 12.11

uchod yn ogystal â'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i ddatganiadau blynyddol a ddisgrifir yn adran blaenorol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Llywodraeth Cymru

- 12.13 Fel yr amlinellir yn y costau a ragwelir ar gyfer gwneud newidiadau i'r broses datganiadau blynyddol, mae costau i Lywodraeth Cymru o ran ymgysylltu yn ehangach â rhanddeiliaid ynghylch y gwaith o ddileu elw. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2025 yn rhag-weld swm penodol o £13,273 y flwyddyn ar gyfer costau cyfathrebu Llywodraeth Cymru rhwng 2024-25 a 2027-28 (mae'r costau ar gyfer 2024-25 a 2025-26 yn gostau suddedig). Gallai cyfran o'r gweithgarwch cyfathrebu hwn, hyd at, a chan gynnwys 2026-27, gynnwys cyfathrebu'r newidiadau i'r broses gofrestru (ochr yn ochr â newidiadau eraill gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i ddatganiadau blynyddol). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd hyn yn rhan fach iawn o'r gweithgarwch cyfathrebu, o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn debygol o ganolbwyntio ar y cerrig milltir gweithredu ehangach, er enghraifft, y cyfyngiadau o 1 Ebrill 2027 ymlaen o ran ychwanegu gwelyau ychwanegol at gartrefi plant presennol neu gymeradwyo gofalwyr maeth newydd.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 12.14 Bydd cyflwyno'r gofynion cofrestru clir ynghylch statws nid-er-elw o dan yr opsiwn hwn yn darparu gweithdrefn syml i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddangos eu bod yn cadw at y gofyniad nid-er-elw, gan leihau amwysedd a'r posibilrwydd o ymholiadau adweithiol pellach gan AGC.

AGC

- 12.15 Bydd cyflwyno'r gofynion cofrestru clir ynghylch statws nid-er-elw o dan yr opsiwn hwn yn darparu gweithdrefn gadarn i AGC i sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r diffiniad nid-er-elw o'r cychwyn cyntaf. Bydd cael yr wybodaeth hon o'r cychwyn cyntaf am y math o sefydliad hefyd o fudd i waith monitro a chynllunio strategol parhaus AGC.

Llywodraeth Cymru

- 12.16 Mae ymgorffori'r gofyniad nid-er-elw mewn rheoliadau cofrestru o fudd i Lywodraeth Cymru o ran sicrhau bod yr uchelgais strategol o ddileu elw o ofal cymdeithasol plant yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae cynnwys y gofynion cyfreithiol clir hyn ar y cam cofrestru hefyd yn lleihau'r posibilrwydd o fethiant polisi gan y bydd rhaid i ddarparwyr ddarparu tystiolaeth glir ynghylch eu statws nid-er-elw o'r cychwyn cyntaf.

Opsiwn dau – Deddfu. Risgiau

Darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

- 12.17 Mae'r gofynion ychwanegol yn ystod y broses gofrestru yn golygu gosod tasg ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ei chwblhau. Gallai'r baich ychwanegol hwn arwain at risg o osod straen ar ddarparwyr llai yn sgil eu hadnoddau a gallai'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol i ddarparwyr ei darparu gynyddu'r risg o gamgymeriadau mewn ceisiadau i gofrestru. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg yn isel o ystyried camau gweithredu arfaethedig AGC i gyfathrebu'r newidiadau arfaethedig a diweddarau canllawiau (mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill).

AGC

- 12.18 Gall yr amser a'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar staff i weithredu'r newid hwn, gan gynnwys addasu AGC Ar-lein, a'r llwyth gwaith cynyddol i brosesu'r elfennau newydd o geisiadau cofrestru, arwain at risg o osod straen ar adnoddau presennol AGC. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r newidiadau arfaethedig i'r datganiadau blynyddol, dylai'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i AGC liniaru'r risg hon.

Llywodraeth Cymru

- 12.19 Mae risg fach o bwysau cyllidebol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru pe bai costau AGC i weithredu'r newid hwn yn uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, disgwylir i'r risg hon fod yn isel o ystyried bod gwariant AGC ynghylch y mater hwn (costau suddedig) hyd yma wedi bod yn unol â'i dyraniad cyllidebol.

b) Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: Gwybodaeth i'w darparu fel rhan o gais darparwr gwasanaeth i ganslo ei gofrestrriad

Opsiwn un – Gwneud dim. Costau ac arbedion

- 12.20 Nid yw'r opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol i Weinidogion Cymru (AGC) na darparwyr gwasanaeth.

Opsiwn un – Gwneud dim. Manteision ac anfanteision

- 12.21 Nid ydym wedi nodi unrhyw fanteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn un – Gwneud dim. Risgiau

- 12.22 Y risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn un yw nad oes gan Weinidogion Cymru (AGC) y sail statudol i'w gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth angenrheidiol gael ei darparu i gyflawni eu dyletswyddau rheoleiddiol yn effeithiol yn ystod y cyfnod cau. Ni fydd gan Weinidogion Cymru (AGC) sicrwydd yn ymwneud â gofal, diogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio neu'n byw yn y gwasanaeth(au).

Opsiwn dau – Deddfu. Costau ac arbedion

12.23 Amcangyfrifir y byddai gofyn i ddarparwyr gyflwyno datganiad ynghylch sut y byddant yn cydymffurfio â safonau ansawdd yn cymryd tua 4 awr i'w wneud. Ni ragwelir y bydd yr wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen yn ychwanegu'n sylweddol at y broses.

12.24 Er mwyn rhoi syniad o'r gost bosibl ar gyfer cau gwasanaeth cyfan, mae'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu ffigurau ar enillion fesul awr ar gyfer gwahanol alwedigaethau ar draws y gwahanol ranbarthau. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffigurau ar gyfer rheolwyr a chyfarwyddwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, y byddai'n ofynnol iddynt gwblhau'r datganiad hwn.

Tabl: Tâl fesul awr – Gros (2024)

Galwedigaeth	Cod	Cyflog Canolrifol yr Awr (£)	Cyflog gros yr awr gan gynnwys argostau (30%)	Cost cwblhau datganiad (gan dybio y byddai'n cymryd 4 awr, wedi ei thalgrynnu i'r £10 agosaf)
Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	117	24.10	31.33	125
Rheolwyr a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol	1172	22.94	29.82	119
Rheolwyr a Pherchnogion mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal	123	20.07	26.09	105
Rheolwyr a pherchnogion gofal preswyl, gofal dydd a gofal cartref	1232	19.93	25.91	104
Cyfartaledd		21.76	28.29	113

Ffynhonnell: - [Enillion ac oriau a weithiwyd, galwedigaeth yn ôl Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol pedwar digid: Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion, Tabl 14 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024](#)

- 12.25 Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y byddai datganiad yn cymryd 4 awr i'w wneud, mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £113 am bob datganiad llawn.
- 12.26 Nid yw'n bosibl pennu'n sicr faint o ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig fydd yn gadael y farchnad yng Nghymru yn y dyfodol ac felly nid yw'n bosibl cyfrifo cost gyfanredol y cam hwn. Fodd bynnag, at ddibenion cymharu:
- yn ystod 2023-24, cafodd AGC 93 o geisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig i ganslo eu cofrestriad.
 - yn ystod 2024-25, cafodd AGC 119 o geisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig i ganslo eu cofrestriad.
- 12.27 Ar gyfartaledd, mae hyn yn rhoi cost enghreifftiol o oddeutu £12,000 y flwyddyn.

Opsiwn dau – Deddfu. Manteision ac anfanteision

- 12.28 Bydd gan Weinidogion Cymru (AGC) wybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno mewn ffurf safonol ynghylch gweithrediad bwriadedig y gwasanaeth(au) a sicrwydd yn ymwneud â gofal, diogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio neu'n byw yn y gwasanaeth(au), er mwyn galluogi AGC i gyflawni ei dyletswyddau rheoleiddiol yn effeithiol yn ystod y cyfnod cau.

Opsiwn dau – Deddfu. Risgiau

- 12.29 Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

13 CASGLIADAU

a) Dileu elw o ofal cymdeithasol plant

- 13.1 Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, **opsiwn dau yw'r opsiwn a ffeirir. Deddfu: Diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017** presennol i sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu amrywio cofrestriad, mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.
- b) **Newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol: Gwybodaeth i'w darparu fel rhan o gais darparwr gwasanaeth i ganslo ei gofrestrriad**

- 13.2 Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, **opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir. Deddfu: Defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau newydd yn adran 14(1A)(a) o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth benodol yn ogystal â nodi ffurf y cais.**

14 ASESU'R GYSTADLEUAETH

- 14.1 **Ar y cyfan, o ran y newidiadau cyffredinol i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol** ni ddisgwylir i'r gofynion yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026 gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru, na chystadleurwydd busnesau.

15 ADOLYGU AR ÔL GWEITHREDU

- 15.1 Disgwylir i werthusiad ffurfiol o'r gwaith ar ddileu elw gael ei gynnal wrth i'r polisi gael ei weithredu. Byddai hyn yn cynnwys gwerthuso unrhyw effeithiau sylweddol o ganlyniad i'r is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y diwygiad hwn.